Gwybodaeth i ymgeiswyr ar gyfer TAR Uwchradd Cymraeg

Llongyfarchiadau!
Rydych wedi'ch gwahodd i gyfweliad ar gyfer lle ar y rhaglen TAR Uwchradd Cymraeg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd – rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael cwrdd â chi a chael clywed am yr hyn sydd gennych i'w gynnig yn ddarpar athro Cymraeg uwchradd. Bydd y llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am yr hyn y gofynnir i chi ei wneud yn ystod diwrnod y cyfweliad a bydd hefyd yn rhoi syniad clir i chi ynglŷn â'r hyn rydym yn chwilio amdano mewn darpar athro Cymraeg. Mae wedi'i ddylunio i'ch helpu i baratoi yn unol â hynny, i chi fod â'r cyfle gorau posib i fod yn llwyddiannus.

Bydd tair rhan i'r broses gyfweld, a allai gael eu cynnal mewn trefn wahanol i'r un a nodir.

Rhan 1
Byddwch yn gwneud profion mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd tasg ysgrifennu estynedig hefyd yn ymateb i erthygl ar bwnc addysgol er mwyn asesu eich sgiliau darllen ac ysgrifennu. Byddwch yn derbyn yr erthygl cyn y diwrnod i chi gael paratoi, felly daliwch ar y cyfle i'w darllen yn drylwyr ac i ddeall y prif bwyntiau. Bydd y rhan hon o'r diwrnod yn para tua dwy awr.

Rhan 2
Rhan 2: Cyflwyniad unigol - hyd at 8 munud - Dysgu Cymraeg yn yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Bydd disgwyl i chi baratoi cyflwyniad byr yn Gymraeg er mwyn rhannu eich syniadau ar Ddysgu Cymraeg heddiw. Mae croeso i chi ddefnyddio'r awgrymiadau isod yn eich cyflwyniad, neu godi syniadau eich hunan. Gallwch baratoi nodiadau o flaen llaw i'ch helpu, neu dod ag adnodd / erthygl i gefnogi eich pwyntiau.

Syniadau posibl:

Beth yw eich profiadau chi o ddysgu Cymraeg hyd yn hyn?
Beth yw gwers Gymraeg effeithiol, yn eich barn chi?
Beth yw anghenion ein dysgwyr Cymraeg?
Beth yw rôl athrawon Cymraeg ynglŷn â chynhyrchu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?
Sut mae helpu a pharatoi dysgwyr ifanc i ddefnyddio Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol?

Bydd cyfle i ateb cwestiynau ar ddiwedd eich cyflwyniad - cyfle i rannu barn a syniadau!

Rydym yn chwilio am y canlynol:

- mynegiant clir o syniadau a gwybodaeth;
- cyfathrebu hyderus, yn dal diddordeb y gwrandawyr;
- y gallu i ddanogs gwybodaeth a phrofiadau pynciol

- ymateb yn effeithiol i gwestiynau
- lefel addas o baratoi

Bydd **Rhan 3** yn cynnwys cyfweliad unigol byr pryd y gallwch esbonio eich cymhellion i ddod yn athro Cymraeg uwchradd, a dangos faint rydych yn deall rôl yr athro mewn ysgol brif ffrwd. Cewch gyfle hefyd i ofyn cwestiynau i ni fel y gallwch wneud dewis gwybodus. Rydym am gael cyfle hefyd i sôn wrthych am ein prifysgol a'n rhaglen TAR Uwchradd gan ein bod yn credu bod llawer gennym i'w gynnig i athro dan hyfforddiant sy'n llawn awydd a dyhead ac rydym yn teimlo'r un mor gyffrous â chithau ynglŷn â'ch dyfodol!

Edrychwn ymlaen i gael cwrdd â chi yn y cyfweliad a dymunwn bob hwyl i chi ar y diwrnod. A wnewch chi gyrraedd 15 munud cyn yr amser a nodwyd er mwyn i ni gael dechrau'r rhaglen yn brydlon.

Dymuniadau gorau
Gina Morgan
Arweinydd Llwybr TAR Uwchradd Cymraeg
Prifysgol Metropolitan Caerdydd

TEF Silver Teaching Excellence Framework FfRhA Arian Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

Met Caerdydd yw'r darparwr TAR Uwchradd mwyaf yng Nghymru ac un o'r mwyaf yn y DU. Yn ogystal, mae'n un o 4 prifysgol yn unig i gael eu hachredu ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru o fis Medi 2019: https://www.ewc.wales/site/index.php/en/ite-accreditation/providers-of-initial-teacher-education-in-wales-from-2019.html

I gael rhagor o wybodaeth am ein cwrs, ewch i:
http://www.cardiffmet.ac.uk/education/courses/Pages/Secondary-PGCE.aspx

Arolwg Profiad a Addysgwyd Uwchraddedigion — Postgraduate Taught Experience Survey

Ansawdd y dysgu a'r addysgu - 90%

Boddhad â'r cwrs - 92%

Boddhad â'r lleoliadau ysgol - 98%

Cyfradd lwyddo 100%

Mae 95% o'n hathrawon dan hyfforddiant yn cael swydd yn y sector (Arolwg DHLE 16/17)